# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 5 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Iau, 28 Ionawr 2021

Amser: 13.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Naomi Stocks**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddCymunedau@senedd.cymru

**Cytunodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod heddiw ar 21 Ionawr 2021.**

**1 Trafod yr adroddiad drafft ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-22**

(13.30 - 15.00) (Tudalennau 1 - 19)

**2 Trafod y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol atodol ar y Bil Cam-drin Domestig**

(15.00 - 15.15) (Tudalennau 20 - 28)

# Eitem 1

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 2

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/JH/4157/20

Mick Antoniw AS

Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

John Griffiths AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16 Rhagfyr 2020

Annwyl Mick & John,

Ysgrifennais atoch ar 15 Hydref ynglŷn â Mesur Cam-drin Domestig Llywodraeth y DU ("y Bil") a'ch hysbysu bod yna oedi yn y broses o fynd â'r Bil drwy Dŷ'r Arglwyddi, ac erbyn hyn ni ddisgwylir i Ail Ddarlleniad Tŷ'r Arglwyddi ddechrau tan fis Ionawr.

Dywedais hefyd fod fy swyddogion wedi bod yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ynglŷn â c73(1)(b) sydd, fel y mae wedi'i ddrafftio ar hyn o bryd, yn tresmasu'n sylweddol ar faterion datganoledig, gan ei fod yn caniatáu i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi canllawiau ar draws yr ystod gyfan o faterion datganoledig a materion nad ydynt wedi'u datganoli sy'n ymwneud â cham-drin domestig, ac yn arbennig ei effaith ar blant.

Mae'n bleser gennyf gadarnhau y daethpwyd i gydgytundeb gan Lywodraeth y DU i gyflwyno gwelliannau i c73 o'r Bil er mwyn sicrhau bod pŵer yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau wedi'i gyfyngu i faterion sydd wedi'u cadw yn ôl ac nad ydynt yn tresmasu ar faterion datganoledig Cymru. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU drwy weithredu c73(6) *('Duty on the SoS to consult with*

**Jane Hutt AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

*the Welsh Ministers)*, er mwyn sicrhau bod y canllawiau a gyhoeddir yn rhoi ystyriaeth lawn i'r sefyllfa ddatganoledig.

Fy safbwynt i o hyd yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 65, 66 a 68 a Rhan 1 o Atodlen 2 am eu bod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Maent yn cynnwys addasiadau i droseddau y gallai'r Senedd eu gwneud yn rhannol. Mae deddfwriaeth i roi sylw i rwymedigaethau rhyngwladol a’u gweithredu, fel rhwymedigaethau confensiwn Istanbul, hefyd yn dod o fewn cymhwysedd y Senedd lle mae deddfwriaeth angenrheidiol yn perthyn i gylch gwaith meysydd datganoledig.

Rwy'n gobeithio bod fy llythyr yn ddefnyddiol ac yn egluro'r materion hyn.

**Jane Hutt AS/MS**

Y Dirprwy Weinidog a’r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip